



[www.dysgu.cymru.gov.uk](http://www.dysgu.cymru.gov.uk)  
[www.learning.wales.gov.uk](http://www.learning.wales.gov.uk)



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government



# Ymgeisio yn Uwch

*Addysg Uwch a'r  
Wlad sy'n Dysgu*

*Strategaeth ar gyfer y  
sector Addysg Uwch  
yng Nghymru*

Mawrth 2002



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

## **YMGEISIO YN UWCH**

### **Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu**

#### **Strategaeth ar gyfer y Sector Addysg Uwch yng Nghymru**

Ceir copïau pellach o'r ddogfen hon oddi wrth:

Miss Jemma Hopkins  
Is-Adran Addysg Uwch  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2080 1286  
E-bost: [jemma.hopkins@wales.gsi.gov.uk](mailto:jemma.hopkins@wales.gsi.gov.uk)  
Gwefan: <http://www.wales.gov.uk>

## CYNNWYS

|   |    |
|---|----|
| Rhagair   | v  |
| I Addysg Uwch a Dysgu yng Nghymru                                     | 1  |
| II Y Cyfeiriad a'r Bwriad Strategol                                   | 4  |
| III Ailgyflunio a Chydweithio - Ail-lunio'r Sector                    | 6  |
| IV Ehangu Mynediad - Dull Gweithredu Myfyriwr-Ganolog                 | 8  |
| V Rheoli Datblygiad, ac Adnoddau Dynol                                | 11 |
| VI Ymchwil  | 11 |
| VII Ymelwa ar Wybodaeth   | 12 |
| VIII Rhagoriaeth mewn Addysgu a Dysgu                                 | 14 |
| IX Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg  | 16 |
| X Datblygu Gweithlu Medrus  | 17 |
| XI Marchnadoedd a Chymaryddion Rhyngwladol                            | 18 |
| XII Arloesi, Cyfleoedd a Chyllido yn y Dyfodol                        | 19 |
| XIII Swyddogaeth a Chylch Gwaith y Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC) | 20 |
| XIV Canlyniadau   | 21 |
| XV Casgliad   | 22 |



## RHAGAIR



Mae addysg uwch yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ac i'm gweledigaeth innau o Gymru fel Gwlad sy'n Dysgu. Rydym am weld gwlad lle mae pawb yn cael cyfartal i wireddu eu potensial, i wneud y gorau o'u cyfle i ennill cyflog, ac i gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at y gymdeithas. Rydym am weld cymdeithas lle rhoddir gwerth ar wybodaeth er ei mwyn ei hun, yn ogystal ag o ran y budd a geir o'i defnyddio. Rydym am weld economi sy'n cystadlu â'r rhai cryfaf yn y byd; economi ffyniannus a hyblyg sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Ni chredwn y gellir cyflawni'r amcanion hyn heb sector addysg uwch ddeinamig. Nid oes yr un wlad yn Ewrop na'r tu hwnt a all feithrin y rhagolygon gorau i'w phobl heb sefydliadau addysg uwch cryf, entrepreneuriaidd a llwyddiannus sydd â chysylltiadau gweithredol â phob rhan o'r gymdeithas a'r economi.

Mae gan Gymru draddodiad anrhydeddus o ddarparu addysg uwch, ac mae ei rhagoriaeth o ran addysgu, dysgu, ysgolheictod ac ymchwil wedi ei hen brofi. Mae sefydliadau wedi ymdopi â thwf graddol a chyson yn nifer cofrestrïadau myfyrwyr, heb gyfaddawdu ar safonau addysgu ac ymchwil. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r sector wedi derbyn yr her ychwanegol o fanteisio i'r eithaf ar y budd economaidd sy'n deillio o ymchwil a gwybodaeth a greir mewn sefydliadau.

Rydym wedi ymrwymo i greu dyfodol cryf i'r sector addysg uwch. Mae arnom eisiau gweld sector sy'n cael ei gyllido'n ddigonol ac sydd wedi'i arfogi i ymateb i'r heriau hyn, tra'n gwarchod ar yr un pryd ei ddarpariaeth draddodiadol. Yn y flwyddyn ariannol 2002-03, byddwn yn sicrhau bod £5 miliwn yn ychwanegol ar gael i gynorthwyo'r gwaith o ailgyflunio ac o ehangu mynediad. Dyna ein hymrwymiad ni i'r sector. Rydym yn credu ym manteision addysg uwch a hoffem weld cynifer ag y bo modd o bobl yn elwa ar y cyfleoedd, beth bynnag fo'u cefndir. Mae arnom eisiau sector cynaliadwy sy'n parhau i ymaddasu ac i ddiwallu anghenion sy'n newid. Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno ein cynigion ni ar gyfer cyflawni hynny.

Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y fframwaith a geir yn "Y Wlad sy'n Dysgu". Mae hefyd yn manteisio ar yr ymgynghori eang a gynhaliwyd ar dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfer ei "Adolygiad Polisi Addysg Uwch". Rydym yn ddiolchgar am waith caled y Pwyllgor ar yr adolygiad. Mae wedi cynhyrchu dogfen werthfawr sy'n sylfaen gref y gallwn ei defnyddio i lunio ein strategaeth a'n gweledigaeth ar gyfer y sector yn y dyfodol. Mae wedi amlygu'r

heriau sy'n wynebu'r sector, yn ogystal â'r cryfderau y mae'n rhaid inni geisio eu datblygu. Mae'r strategaeth hon yn awr yn nodi sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r sector wrth iddo wireddu ein gweledigaeth. Credwn fod y sector eisoes yn meddu ar lawer o'r hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau rhagoriaeth ac y gallwn, trwy gydweithio, ei gynorthwyo i wneud y cyfraniad gorau posibl i fyfyrwyr, staff, cymunedau a busnesau yn awr ac yn y dyfodol.

A handwritten signature in black ink, reading 'Jane Davidson' in a cursive style.

Jane Davidson AC  
Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol-Oes

# Y WLAD SY'N DYSGU AC ADDYSG UWCH

## Strategaeth ar gyfer y Sector Addysg Uwch yng Nghymru

### I Addysg Uwch a Dysgu yng Nghymru

#### Cyflwyniad

1. Mae gan addysg uwch (AU) gyfraniad hollbwysig i'w wneud o ran gwneud Cymru gyfan yn fwy ffyniannus. Nid oes yr un wlad yn Ewrop nar tu hwnt a all obeithio meithrin y rhagolygon gorau i'w phobl heb sefydliadau addysg uwch cryf, entrepreneuriaidd a llwyddiannus sy'n chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu'r economi wybodaeth.
2. Pwrpas y strategaeth hon yw pennu cyfeiriad eglur ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru hyd at 2010. Fe'i rhagflaenwyd gan "Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru" (Hydref 2000) a "Y Wlad sy'n Dysgu" (Medi 2001). Mae'r strategaeth hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr ymgynghori eang a'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr "Adolygiad Polisi Addysg Uwch" a gyhoeddwyd yn Ionawr 2002 gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.
3. Mae gan addysg uwch yng Nghymru lawer i fod yn falch ohono:
  - darpariaeth i **Gymru gyfan**;
  - **traddodiad** anrhydeddus o **addysgu, ymchwil ac ysgolheictod** - o estyn ffiniau gwybodaeth a dysg;
  - **cynnydd sylweddol yn niferoedd y myfyrwyr** dros yr 20 mlynedd diwethaf, tra'n cynnal safonau addysgu uchel;
  - **hanes o lwyddiant yn ehangu mynediad** - gan ddenu a chadw myfyrwyr o gefndiroedd lle ceir diffyg mantais a phrinder cynrychiolaeth. Bu'r penderfyniad i gyflwyno Grantiau Dysgu'r Cynulliad yn gymorth yn hyn o beth;
  - **gwelliant nodedig yn y perfformiad ymchwil** - gwelwyd cynnydd cyson yn nifer y graddau uchel a ddyfarnwyd yn Ymarferiad Asesu Ymchwil (YAY) y DU, gyda chynnydd o bedair gwaith yn nifer yr adrannau a gafodd radd 5\* a chynnydd o bron ddwywaith yn nifer yr adrannau a gafodd radd 5;
  - **safle blaenllaw o ran masnacheiddio'r wybodaeth** a gynhyrchir mewn sefydliadau AU a sefydliadau cysylltiedig;
  - **llwyddo i ddenu** 51% o fyfyrwyr o Gymru a 48% o fyfyrwyr o fannau eraill yn y DU i astudio mewn sefydliadau addysg uwch (SAU) yng Nghymru yn 1999/2000.



## Polisi ac Egwyddorion

4. Rhaid i'r polisi ar gyfer y sector hyd at 2010 adeiladu ar y llwyddiannau hyn. Rhaid iddo gymryd i ystyriaeth yr elfennau hynny a gydnabyddir yn gyffredin fel dibenion craidd AU, tra'n meithrin ein diwylliant a'n gwerthoedd unigryw ni.

"In the light of national needs, we believe that the aim of higher education should be to sustain a learning society. The four main purposes of this aim are to:

- inspire and enable individuals to develop their capabilities to the highest potential levels throughout life, so that they grow intellectually, are well equipped for work, can contribute effectively to society and achieve fulfilment;
- increase knowledge and understanding for their own sake and to foster their application to the benefit of the economy and society;
- to serve the needs of an adaptable, sustainable, knowledge based economy at local, regional and national levels;
- to play a major role in shaping a democratic, civilised, inclusive society<sup>1</sup>

5. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi'n sylweddol mewn addysg uwch. Yn 2001/2002, roedd £385 miliwn ar gael i'r sector - buddsoddiad uwch yn ôl cyfran nag a gafwyd yn Lloegr.

6. Mae addysg uwch yn gwneud cyfraniad hollgwmpasol i amcanion allweddol y Cynulliad, sef darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes, estyn cynhwysiant cymdeithasol; cynyddu'r cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC); gwella'r lefelau sgiliau; meithrin hunanhyder diwylliannol; mynd i'r afael ag anghenion Cymru wledig; hyrwyddo menter a chreadigrwydd, a sicrhau datblygu cynaliadwy<sup>2</sup>. Bydd llwyddiant y sector yn y dyfodol yn dibynnu ar ragoriaeth ei ganlyniadau, ei enw da ymhlith cymheiriaid a dysgwyr, ansawdd y gyfathrach rhyngddo a'r gymuned a rhyngddo a'i bartneriaid ym myd busnes ac yn y sector cyhoeddus, a chadernid ei broffil yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

7. Rhaid i bob sefydliad ddeall yn eglur beth yw ei swyddogaeth a'i genhadaeth. Er na all unrhyw sefydliad ddisgwyl rhagori ym mhob pwnc ac ym mhob maes, gall weithio ar sail ei lwyddiant hyd yn hyn a cheisio ymgynhyrchu at **berfformiad o safon fyd-eang** trwy addysgu, ymchwil, gwaith maes cymunedol, ymelwa ar wybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth.

## Yr Her o'n Blaenau

8. Er gwaethaf ei hanes disglair, mae addysg uwch yng Nghymru'n wynebu nifer o heriau sylweddol sy'n bygwth ei marchnadoedd traddodiadol. Mae myfyrwyr yn

<sup>1</sup> Adroddiad Dearing - "Higher Education in the Learning Society" (Gorffennaf 1997)

<sup>2</sup> Gweler - Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru - Mawrth 2001: Y Wlad sy'n Dysgu - Medi 2001: Cynllun i Gymru - Hydref 2001: Cymru'n Ennill - Ionawr 2002: Rhoi Cymunedau'n Gyntaf - Medi 2001: Ffermio i'r Dyfodol - Tachwedd 2001: Cymru Ar-lein - Tachwedd 2001: Dysgu Byw'n Wahanol - Tachwedd 2000: Cymru Greadigol - Ionawr 2002: Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth - Chwefror 2002.

llai parod i deithio mor bell ar gyfer eu haddysg uwch; mae'r adnoddau ariannol sydd gan gystadleuwyr tramor, ac ambell un yn y DU, yn anferthol; mae sefydliadau addysg uwch mawr ac egniol yn cael eu hagor mewn rhannau o Loegr sy'n agos i Gymru; a maent yn gwneud i ffwrdd â'r terfyn uchaf ar niferoedd myfyrwyr yn Lloegr. Mae'r gystadleuaeth yn gryfach hefyd oherwydd y nifer anghymesur o uchel o sefydliadau bach sydd yng Nghymru. Mae gan Gymru, gyda'i phoblogaeth o 3 miliwn, 13 o sefydliadau, o gymharu â 14 sefydliad yr Alban, gyda'i phoblogaeth o oddeutu 5 miliwn, a dau sefydliad yng Ngogledd Iwerddon (un ohonynt ar bedwar campws), lle mae'r boblogaeth oddeutu 1.5 miliwn.

- **Mae angen gwneud rhagor i ehangu mynediad** at addysg uwch. Dim ond 26% o'r rhai a dderbynnir i'r SAU sy'n perthyn i grwpiau cymdeithasol sydd dan anfantais (1999/2000). Rhaid i'r SAU wneud rhagor i gyrraedd pobl mewn ysgolion ac mewn addysg bellach, sy'n dod o gymunedau tlawd yn economaidd, a allai gael budd o addysg uwch. Rhaid iddynt agor a chynnal llwybrau mynediad newydd.
- Yn hanesyddol, mae'r SAU yng Nghymru wedi ei chael yn anodd cyrraedd y mäs critigol sy'n angenrheidiol er mwyn **codi nifer y ceisiadau llwyddiannus am gyllid y Cyngorau Ymchwil**. Er gwaethaf gwelliant diweddar, mae'r sector yn parhau i gael anhawster i ddenu cyllid ar gyfer prosiectau mawr. Pe bai'r sector yn llwyddo i ddenu'r ganran o gyllid y Cyngorau Ymchwil sy'n cyfateb i'r gyfran o'r boblogaeth, gallai Cymru gael budd o £10 miliwn o leiaf yn ychwanegol bob blwyddyn.
- **Nid yw SAU Cymru wedi llwyddo'n arbennig yn y gorffennol i ddenu arian** trwy nawdd corfforaethol, trwy ymddiriedolaethau a chyn-fyfyrwyr, trwy waddolion na thrwy gontractau ymchwil â neb heblaw'r Cyngorau Ymchwil. O ganlyniad, mae perthynas wanach rhwng SAU Cymru a'r sector gorfforaethol a sectorau eraill, ac mae hynny'n gwanhau eu cyfraniad i'r economi.
- Mae'r sector yn **datblygu ei berthynas â'r sector preifat** er mwyn masnachu gwybodaeth, gan sefydlu cwmnïau arbenigol a hawliau patent sy'n defnyddio'r technegau mwyaf blaengar - un o'r blaenoriaethau allweddol a nodir yn "Cymru'n Ennill". Mae cyfle i wneud cynnydd mawr yn y cyfeiriad hwn gan fod Cymru mewn sefyllfa ragorol i fanteisio i'r eithaf ar y budd sy'n deillio o hynny, ac i gynnig arweiniad rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae'r DU yn yr ail safle, ar ôl UDA, o ran manteisio'n fasnachol ar waith ymchwil. Mae sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru'n chwarae rhan arwyddocaol yn y llwyddiant hwnnw. Fodd bynnag, mae angen iddynt wneud rhagor er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr incwm y gellir ei gael o'r ffynonellau hyn.
- **Mae baich trymach na'r cyffredin o gostau gweinyddol ar y sector** – hwyrach cymaint â 4% yn uwch na chyfartaledd costau sectorau SAU eraill yn y DU. Gellid cyflawni'r swyddogaethau gweinyddol sylfaenol yn llawer rhatach trwy gydweithredu. Mae sefydliadau mawr yn gwario canran lai o gyfanswm eu hincwm ar staff ac adeiladau nag y mae sefydliadau llai. Gwasgerir yr adnoddau rheoli prin, er anfantais i reolaeth

ariannol. Pe gallai'r sector cyfan ostwng costau ei orbenion 4%, byddai ganddo tua £3 miliwn yn fwy i'w wario ar ei swyddogaethau craidd.

- **Mae angen moderneiddio'r gwasanaethau myfyrwyr a gyrfaedd.** Dylai'r SAU Cymreig gael eu hystyried yn gyrchfannau dewis cyntaf. Mae angen i'r sefydliadau fabwysiadu'r safonau gofal cwsmeriaid gorau yn eu hymwneud â phob darpar ddysgwr neu ddysgwr gwirioneddol.
- **Nid yw SAU Cymru'n marchnata eu hunain dramor** yn ddigon effeithiol i sicrhau eu cyfran briodol o fyfyrwyr tramor sy'n talu ffioedd. Mae angen gwneud llawer mwy i ddenu myfyrwyr o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Gallai hynny ennill o leiaf £5 miliwn y flwyddyn i'r sector.
- Nid yw'r **dulliau presennol o gyllido drwy fformiwlâu** yn rhoi llawer o gyfle i ganolbwyntio'r cyllido er mwyn cael effaith sylweddol.

9. Rhaid cadw'r elfennau gorau yn yr hyn y mae'r sector wedi llwyddo i'w wneud trwy Gymru gyfan, tra'n creu proffil llawer mwy hyderus ac egniol, nid yn unig ar gyfer addysgu ac ymchwil, ond hefyd ar gyfer cenhadaeth economaidd a chymunedol yr SAU. Dyna'r hyn y mae ein strategaeth hyd at 2010 yn ceisio'i gyflawni.

## II Y Cyfeiriad a'r Bwriad Strategol

### Y Weledigaeth

10. Erbyn 2010, bwriadwn i addysg uwch yng Nghymru gael ei diffinio'n bennaf gan rwydweithiau rhagoriaeth yn hytrach na sefydliadau. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu addysg uwch i bawb sydd â'r gallu i fanteisio arni. Bwriadwn i'r SAU yng Nghymru fod yn lleoedd o'r ansawdd uchaf ar gyfer dysgu ac addysgu, a fydd yn denu mwy a mwy o fyfyrwyr o gymunedau sydd dan anfantais, ac yn marchnata'u hunain yn fwy effeithiol gartref a thramor.

11. Rydym yn dymuno i AU chwarae'i rhan mewn diwallu anghenion datblygu'r gweithlu yn y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau eraill sydd o'r pwys mwyaf ym mywydau pobl Cymru. Credwn y dylid taenu'r ddarpariaeth, cyn belled ag y gellir, yn weddol wastad yn ddaearyddol trwy Gymru - gan ddefnyddio e-ddysgu yn effeithiol i'r diben hwnnw. Trwy wneud hyn, credwn y bydd modd i'r ddarpariaeth AU hefyd adlewyrchu anghenion rhanbarthol Cymru.

12. Rydym yn dymuno gweld sector amrywiol â gwahanol genadaethau, sy'n cynnig darpariaeth AU gynhwysfawr ar lefel Cymru gyfan. Rydym yn awyddus i sefydliadau gael y rhyddid i arbenigo mewn pynciau a chenadaethau, tra'n sicrhau bod ystod y pynciau a gynigir trwy Gymru yn ymatebol ac yn addas. Rhaid i Gymru gael SAU sy'n gystadleuol â gweddill y byd, o ran ymchwil ac ysgolheictod mewn ystod eang o ddisgyblaethau. Rydym hefyd am weld sefydliadau'n ffurfio rhagor o gysylltiadau, a chysylltiadau agosach, â byd busnes - a rhagor o ddefnyddio ar alluoedd ymchwil y sefydliadau i gynorthwyo busnesau ac i adlewyrchu eu hanghenion. Rydym am i SAU gynorthwyo datblygiad yr economi wybodaeth, gan ymroi i fuddsoddi'n benodol mewn ymchwil, mewn defnyddio

ymchwil ac mewn trosglwyddo gwybodaeth. Disgwyliwn i'r SAU fod yn llawer mwy egniol o ran manteisio'n fasnachol ar wybodaeth pan fo hynny'n briodol, gan chwilio am gyfleoedd i ddod â chanlyniadau ymchwil i'r farchnad ar ffurf cynnyrch, technegau a gwasanaethau. Dymunwn i'r SAU drawsnewid eu hunain yn gyrrff busnes-gyfeillgar. Credwn y dylai pob cyfadran ac adran ddefnyddio'u galluoedd creadigol i gefnogi cenadaethau economaidd eu sefydliadau ac i chwarae rhan allweddol yn eu heconomiâu rhanbarthol, gan gydweithio'n agos ag Awdurdod Datblygu Cymru, awdurdodau lleol a'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa.

13. Ni ddylid synio am addysg uwch mewn termau sefydliadol cul. Rhaid i AU ffurfio cysylltiadau o fewn y sector a hefyd ar draws y ffiniau sectorol. Rydym yn dymuno gweld sector sy'n cymryd rhan briodol yn y gwaith o gyflwyno blaenoriaethau ac egwyddorion ehangach y Cynulliad, gan gynnwys cynaliadwyedd, cynhwysiant cymdeithasol, cyfle cyfartal a datblygu dwyieithrwydd.

14. Rhaid i'r SAU geisio cystadlu â'r goreuon a chyrraedd eu safonau hwy - nid yn unig fel y maent yn awr ond fel y byddant yn y dyfodol hefyd. Rhaid i'r SAU gydnabod bod eu cystadleuwyr yn gwella'n gyson, a rhaid i'w deisyfiadau hwythau godi yn yr un modd. Byddwn yn comisiynu dadansoddiadau o'r profiad yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU a't tu hwnt, er mwyn meincodi cynnydd yr SAU Cymreig yn erbyn y goreuon oll, a disgwyl i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gymhwyso'r gwersi a ddysgir dros y cyfnod hyd at 2010.

### **Gwireddu'r Weledigaeth – Strwythur, Canlyniadau ac Adnoddau**

15. Dywedasom yn "Y Wlad sy'n Dysgu" nad oedd cadw'r *status quo* o safbwynt strwythur yn un o'r dewisiadau a oedd ar gael inni. Ategwyd y farn honno yn Adolygiad Addysg Uwch y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Ni all y sector gyflawni'r hyn a ddisgwyliwn ganddo heb fabwysiadu dull sylfaenol newydd ar gyfer cydweithio a chydweithredu trwy Gymru gyfan.

16. Mae niferoedd y myfyrwyr a'r cyllid cyhoeddus a fuddsoddir yn y sector yn parhau i gynyddu'n sylweddol bob blwyddyn. Dylai Llywodraeth y Cynulliad, felly, geisio cadw'r cydbwysedd mwyaf cadarnhaol rhwng sicrhau atebolrwydd dros y cyllid cyhoeddus hwnnw a diogelu rhyddid academiaidd a gweithio hyblyg. Arweinir ni felly at weledigaeth hyd at 2010 ac iddi'r nodweddion canlynol:

- Er mai cyllid cyhoeddus sylweddol fydd y ffynhonnell sylfaenol o hyd, bydd angen i'r SAU ddangos mwy o allu i godi incwm o ffynonellau eraill ac ateb yr heriau y cyfeirir atynt uchod.
- Ni ddylid cynyddu'r flaen-waelodlin a gyhoeddwyd yng Nghylch Cynllunio Cyllideb 2001 ac eithrio er mwyn adlewyrchu ffactorau chwyddiant CMC. Dylai unrhyw gyllid atodol wedyn fod yn gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth hon, ar y sail 'rhywbeth am rywbeth', gan asesu'r adenillion o fuddsoddiadau ym mhob adolygiad gwariant, yn erbyn targedau y gellir eu meintoli.

- Dylid rhoi cymaint o sicrwydd hirdymor ag y bo modd ynghylch cyllido. Byddwn yn parhau i ddisgwyl i CCAUC ddarparu cyllid craidd trwy fformiwla, ond byddwn yn ystyried darparu cyllid atodol er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon.
- Mae ein buddsoddiad mewn AU am y flwyddyn ariannol 2001-02, gan gynnwys yr adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn uwch na buddsoddiad Lloegr yn nhermau'r uned adnodd, yn ogystal ag o ran cyfrannedd â maint y boblogaeth. .
- Mae ein buddsoddiad mewn AU am y flwyddyn ariannol 2001-02, gan gynnwys yr adnoddau ychwanegol gan Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn uwch na buddsoddiad Lloegr yn nhermau'r uned adnodd, yn ogystal ag o ran cyfrannedd â maint y boblogaeth.

| <b>Uned adnodd yng Nghymru (2001-02)<br/>(£)</b> | <b>Uned adnodd yng Lloegr (2001-02)<br/>(£)</b> |
|--|---|
| 5,323  | 5,281   |

- Fodd bynnag, fel yr Alban, ni chredwn mai'r uned adnodd ddylai lywio'r penderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Nid yw'n sail ddiogel, ac mae'n anochel y bydd yn mynd yn fwyfwy camarweiniol oherwydd y dargyfeirio graddol yn y cydrannau cyllid, y cyfeiriad strategol a nodweddion y sectorau yn y gwahanol rannau o'r DU. Ein nod yw canolbwyntio ar ganlyniadau, a byddwn yn amcanu i werthuso ein buddsoddiad ar sail cyraeddiadau'r sector. Yn amodol ar y cyraeddiadau hynny, byddwn yn ceisio dangos cynnydd mesuradwy tuag at gyllido AU yn ôl cyfrannedd debyg i un yr Alban maes o law, cyn belled ag y daw hynny â buddion dangosadwy i Gymru.
- Rydym yn ceisio canolbwyntio ar ganlyniadau strategol a chyllido ar gyfer canlyniadau diriaethol ar y sail 'rhywbeth am rywbeth'. Ni ellir cyrraedd y canlyniadau a geisiwn ar gyfer AU heb ymgrych sylfaenol i sicrhau cydweithio ac i ad-drefnu'r strwythurau yn y sector.
- Bydd ein methodolegau cyllido a'r telerau ac amodau grant a bennir gan CCAUC yn hwyluso ac yn atgyfnerthu ein hymgyrch i sefydlu sector a nodweddir gan rwydweithiau rhagoriaeth.

17. Yn erbyn y cefndir hwn, ein prif flaenoriaethau ar gyfer AU yng Nghymru yw ailgyflunio i gyfeiriad system sy'n seiliedig ar rwydweithiau rhagoriaeth, ac estyn y cyfle i gael addysg uwch i bob sydd â'r gallu i gael budd ohoni.

### III Ailgyflunio a Chydweithio – Ail-lunio'r Sector

18. Rhaid i ailgyflunio a chydweithio fod yn elfen ganolog yn y strategaeth ar gyfer AU yng Nghymru. Nid ydym yn ystyried bod clystyrau'n ddiben yn eu hunain, ond yn hytrach eu bod yn fecanwaith allweddol ar gyfer adfywio'r sector a'i wneud yn gystadleuol yn rhyngwladol.

19. Rydym yn awyddus i gefnogi clystyrau sy'n rhannu cenhadaeth gyffredin. Gall clystyrau ystyrlon daearyddol neu swyddogaethol o'r fath ychwanegu at gryfder sefydliadol AU yng Nghymru. Felly, er enghraifft, mae'r dull 'both ac adain' o ddarparu hyfforddiant meddygol, a ganolir yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru o fudd mawr i Gymru gyfan, ac yn darparu patrwm ar gyfer dyfodol addysg feddygol.

20. Dymunwn weld cydweithio gweinyddol a swyddogaethol yn ogystal ag ar sail pynciau. Tybiwn y gellir cyflawni hyn - yn enwedig os ceir arweiniad cryf o du'r llywodraethwyr - heb fygwth amrywiaeth cyffredinol y cenadaethau yng Nghymru na'r ddarpariaeth addas a gynigir. Rydym yn awyddus i weld clystyrau'n arbenigo ac yn blaenoriaethu - a thrwy hynny'n diffinio'u cenadaethau craidd. Ni ddylid gwahardd sefydliadau sy'n ymuno â chlwestwr rhag cydweithio â chlystyrau a sefydliadau eraill. Y sylfaen ar gyfer potensial y sector yn y dyfodol fydd cyfres o ryngweithiadau llyfn rhwng sefydliadau, wedi'i seilio ar y model clystyrau. Mae Cymru'n wlad rhy fach i unrhyw sefydliad weithio ar ei ben ei hun. Gwrthodwn fodel plwyfol ar gyfer dyfodol addysg uwch.

21. Tybiwn y gallai'r gwaith o fwrw ymlaen â'r agenda ar gyfer ailgyflunio a chydweithio fod yn fwy amrywiol a chymhleth na'r model a gynigiwyd gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Rydym yn rhagweld toreth o gydberthnasau rhwng sefydliadau a chlystyrau ar lawer lefel - sef cyfres o rwydweithiau rhagoriaeth. Nid ydym eisiau amharu ar unrhyw symudiadau presennol i uno neu i gydweithio'n ymarferol. Nid priodol fyddai pennu union ffurf a natur y clystyrau. Croesawn yr ymdrechion â'r cynnydd cynnar a wnaed gan CCAUC ac Addysg Uwch Cymru (AUC) o ran datblygu fframwaith ar gyfer cydweithio rhwng sefydliadau.

22. Fodd bynnag, gwelwn yn eglur fod newid yn hanfodol, ac rydym yn disgwyl i'r sector sicrhau canlyniadau real, nid rhai ymddangosiadol. Heb dystiolaeth bendant o weithredu cadarn i'r perwyl hwn (lleihau costau; codi incwm; enillion lluosydd; a chreu capasiti); ni ellir cynnal yr achos dros ddatblygu'r sector a darparu cyllid atodol. **Bydd canlyniadau ymarferol, sydd wedi eu costio a'u meintoli, yn ofynnol gan y sector mewn perthynas ag ailgyflunio yn ystod 2002-03** - a byddwn yn nodi'r hyn a ddisgwyliwn i CCAUC ei gyflawni, yn enwedig drwy gyfrwng amodau grant.

23. Rydym yn cydnabod y bydd ailstrwythuro hirdymor o'r math hwn yn galw am fuddsoddi ar y dechrau, er mwyn sicrhau buddion lluosydd ac arbedion y gellir eu hailddyrrannu i'r sector yn y tymor hwy. Bydd cyfanswm o £5 miliwn ar gael yn ystod 2002-03, **£3 miliwn ohono yn ychwanegol at y cynlluniau blaenorol**. Rhoddir ystyriaeth yn y cylch cyllideb nesaf i ddarparu swm cyffelyb o gyllid treigl ymlaen i 2003-04, gan ddibynnu ar ffrwyth cyntaf buddsoddiad y flwyddyn nesaf. Am y cyfnod y gellir ei ragweld i'r dyfodol, yr alwad gyntaf ar unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer AU fydd cyllid ar gyfer cydweithio ac ailgyflunio. Yn y tymor byr, rhagwelwn y bydd grwpiau o sefydliadau'n cynnal astudiaethau cwmpasu a gwaith paratoadol, cyn cyflawni newidiadau gwirioneddol yn ystod 2003-04.

24. Os bydd y sector yn ymrwymo i foderneiddio, byddwn yn barod yn y dyfodol i ychwanegu symiau atodol at ein gwaelodlin bresennol ar gyfer AU, er mwyn cyrraedd ein hamcanion strategol eraill yn y tymor hir. Byddwn yn ystyried hyn yn ystod pob cylch cyllidebu yn ei dro, ac yng ngoleuni'r canlyniadau a gyflawnir gan y sector.
25. Byddwn hefyd yn monitro'r polisi ar niferoedd myfyrwyr yn Lloegr. Gan fod y terfyn uchaf yn cael ei ddileu yno, byddwn yn gwneud yr un modd yng Nghymru. Er y byddem yn cadw'r niferoedd targed isaf, ni fyddai cyfyngiad ar niferoedd y myfyrwyr a gâi eu recriwtio gan yr SAU. Byddai hyn yn rhoi cyfle i bob clwstwr reoli ei gynlluniau busnes yn briodol, penderfynu ar y niferoedd critigol o fyfyrwyr, a chydweithio er mwyn parhau'n gystadleuol.
26. Nid mater i Lywodraeth y Cynulliad yn bennaf yw dyfodol Prifysgol Cymru ffederal; yn hytrach, mater ydyw i'w aelodau cyfansoddol. Er ein bod yn cydnabod gwerth cyfredol a hanesyddol gradd Prifysgol Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun model o gydweithio, mae'n hanfodol asesu'n wrthrychol werth cyfraniad Prifysgol Cymru ffederal i'r sector, yn enwedig ei fusnes sicrhau ansawdd a dilysu allanol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod gwersi i'w dysgu o ddatblygiad prifysgolion ffederal mewn gwledydd eraill.
27. Felly, rydym yn croesawu'r asesiad sydd ar y gweill gan Syr David Williams o rôl Prifysgol Cymru. Bydd yn bwysig cael consensws eang ar y canlyniadau. Disgwyliwn i'r sector roi ystyriaeth ddwys i ddichonoldeb hirdymor gradd Prifysgol Cymru fel brand, gartref a thramor; i'r hyn y byddai'n rhaid ei wneud i'w chryfhau yn wyneb cystadleuaeth fyd-eang; ac i oblygiadau'r dewisiadau eraill.

## IV Ehangu Mynediad – Dull Gweithredu Myfyriwr-Ganolog

- Ym 1999/2000 roedd gan 5% o'r myfyrwyr AU yng Nghymru anabled
- Ym 1999/2000 roedd 14.6% o'r israddedigion newydd ifanc yng Nghymru yn dod o gymdogaethau isel eu cyfranogiad, o gymharu â 13% yn y DU.
- Roedd gan 70% o'r ymgeiswyr a dderbyniwyd gan SAU yng Nghymru gymwysterau lefel A neu AS fel eu prif gymhwyster ym 1999.
- Yn y flwyddyn academiaidd 1999/2000, perfformiodd Prifysgol Morgannwg, Coleg Prifysgol Cymru Casnewydd, UWIC, NEWI, Athrofa Addysg Uwch Abertawe a Choleg y Drindod, Caerfyrddin i gyd yn well na chyfartaledd Cymru o ran denu israddedigion newydd ifanc o gymdogaethau isel eu cyfranogiad.
- Roedd y Times Higher Education Supplement yn cynnwys 6 o'r SAU Cymreig yn y 18 uchaf a eilw'n "Access Elite" – y sefydliadau hynny sy'n llwyddo i gyfuno ehangu mynediad â safonau uchel o ran ymchwil ac addysgu (THES 18 Ionawr 2002)



28. Mae agwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at gymorth i fyfyrwyr yn un ragweithiol iawn. Yn dilyn yr adroddiad annibynnol ar Galedi Myfyrwyr yn 2001, rydym bron wedi dyblu'r cyllid i'r Rhaglenni Mynediad a Chaledi ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach yn 2001-02, i £20 miliwn. Eleni, rydym wedi neilltuo £41 miliwn er mwyn cyflwyno Grantiau Dysgu'r Cynulliad mewn addysg uwch ac addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd wedi byw am o leiaf dair blynedd yng Nghymru, lle bynnag y byddant yn astudio. Byddwn yn targedu'r arian hwn at fyfyrwyr o gefndir incwm isel, gan ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr aeddfed a rhai sydd â chostau gofal plant. O ganlyniad i'r cynlluniau hyn, amcangyfrifir y bydd 43,000 o fyfyrwyr o Gymru mewn addysg bellach ac addysg uwch yn cael budd o gymorth grant trwy gydol eu haddysg. Nodwn hefyd fod Llywodraeth y DU yn adolygu'r cymorth a roddir i fyfyrwyr.

29. Bydd dysgwyr AU ac AB, rhan-amser yn ogystal â llawn-amser, yn manteisio'n uniongyrchol ar y buddion a ddaw o bob un o'r cynlluniau hyn. Mae hwn yn fuddsoddiad ariannol hirdymor yn nyfodol dysgu ac yn nyfodol ein myfyrwyr. Mae'n brawf o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhwystrau ymarferol sy'n atal pobl rhag manteisio ar gyfleoedd addysg uwch.

30. Mae gormod o bobl a allai elwa ar addysg uwch yn dal i gredu nad rhywbeth iddynt hwy ydyw. Rhaid i AU gael gwared ar y canfyddiad hwn o rwystrau. Rydym yn croesawu'r gwaith sydd eisoes ar droed gan sefydliadau i annog mwy o bobl i ymgymryd ag addysg uwch, o blith y grwpiau hynny a fyddai, yn hanesyddol, heb gael neu heb dderbyn y cyfle hwnnw. Croesewir yn arbennig y ffaith fod dau Gyngor Elwa wedi dynodi ehangu mynediad yn faes allweddol ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae'r cydweithio hwn yn allweddol i lwyddiant ein strategaeth.

31. Rhaid i AU barhau i herio'r rhagdybiaeth mai cymwysterau academiaidd yw'r unig lwybr mynediad at addysg uwch. Byddwn yn ceisio sicrhau y gellir symud yn ddi-dor o gymwysterau a chysiau galwedigaethol i sefydliadau addysg uwch. Mae angen i AU sicrhau y cyflwynir cysiau mewn modd hyblyg, gan ddarparu AU o fewn colegau AB, a chyda systemau credydau a fydd yn caniatáu i fyfyrwyr symud yn rhwydd o un math o ddarpariaeth i'r llall ac i ymgymryd â dysgu ar yr adegau ac yn y manau sy'n hwylus iddynt hwy. Rhaid chwalu pob gwahanfur artiffisial rhwng AB ac AU.

- Nid oedd 8% o'r holl fyfyrwyr amser-llawn newydd gradd gyntaf yng Nghymru ym 1998-99 wedi parhau mewn AU y tu hwnt i'w blwyddyn gyntaf, o gymharu â 10% trwy'r DU gyfan.
- Nid oedd 9% o'r holl fyfyrwyr ifanc amser-llawn o gymdogaethau cyfranogiad-isel wedi parhau mewn AU tu hwnt i'w blwyddyn gyntaf, o gymharu â 6% o gymdogaethau eraill. Mae'r ffigurau hyn yn is na chyfartaledd y DU.
- Mae cyfran y myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru, na ddisgwyli'r iddynt ennill cymhwyster, yn is na'r gyfran gyfatebol yn y DU gyfan ac mae wedi bod yn gostwng bob yn dipyn (14% o'r myfyrwyr amser-llawn a ddechreuodd ar gysiau gradd gyntaf ym 1998-99, o gymharu â chyfartaledd o 16% yn y DU).



32. Mae cadw myfyrwyr cyn bwysiced â recriwtio. Trwy ehangu'r mynediad i grwpiau a dangynrychiolwyd yn draddodiadol o fewn addysg uwch, wynebier heriau newydd o ran cadw myfyrwyr. Yn aml iawn, mae ar y grwpiau hyn angen lefelau uwch o gefnogaeth nag a fu ar gael yn draddodiadol. Credwn fod angen i'r sefydliadau fabwysiadu dull sydd hyd yn oed yn fwy myfyriwr-ganolog.

33. Dylai'r SAU sicrhau bod cefnogaeth fugeiliol ac arweiniad ar gael i'r myfyrwyr – gan fod llawer ohonynt yn byw oddi cartref am y tro cyntaf. Mae angen addasu'r gefnogaeth honno ar gyfer anghenion penodol yr unigolyn, gan gynnwys unrhyw anghenion arbennig a allai fod ganddynt. Dylai hyn fod yn fan cychwyn i sefydlu cysylltiad â'r myfyrwyr trwy gydol eu hoes, a fydd yn cwmpasu cyngor gyrfaol o'r safon uchaf (gan gynnwys cyngor ynghylch cyfleoedd gyrfaol yng Nghymru), ynghyd â gwasanaeth egniol ar gyfer cyn-fyfyrwyr.

34. Ar y cyd â CCAUC, rydym yn bwriadu:

- cynyddu'r cyllid ar gyfer **cynlluniau arloesol sy'n seiliedig ar gymunedau**, er mwyn annog pobl alluog, na fuont yn cyfranogi o'r blaen, i ymgymryd ag AU. Hoffem i'r sector beidio â chyfyngu ei sylw i'r ysgolion ac AB, yn enwedig yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac mewn cymunedau difreintiedig eraill, gan gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid. Rydym yn dymuno i'r sector ystyried buddion cynlluniau ar gyfer Cymru gyfan yn ogystal â chynlluniau cydweithiol llai. Yn ystod 2002-03 byddwn yn rhoi **£2 miliwn ar gael yn ychwanegol ar gyfer cynlluniau peilot yn y maes hwn**;
- **cynyddu'r gronfa ehangu mynediad**, gan fynnu bod CCAUC cadw golwg ar y gronfa a'r modd y dosberthir yr arian. Byddwn yn ceisio darparu ar gyfer gwir gost ehangu'r mynediad, cyn belled ag y bo modd – gan gynnwys cost y staff ychwanegol;
- comisiynu adroddiad gan CCAUC ar y **ddarpariaeth o gymorth personol** i fyfyrwyr mewn SAU yng Nghymru;
- manteisio ar bob technoleg sydd ar gael i **farchnata'n eang y cyfleoedd a gynigir o fewn y sector** - gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth am y llwybrau i AU a'r cymorth ariannol. Mae'n bwysig fod pobl ifanc yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am y cyfleoedd sydd ar gael trwy gydol eu haddysg, yn ogystal â gwybodaeth am oblygiadau'r penderfyniadau hynny yn dyfodol;
- gweithredu i wireddu'n llawn y **system gymwysterau ar sail credydau** er mwyn sicrhau cerrig camu pendant tuag at gyrhaeddiad a dewisiadau eglur ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno newid darparwr.

## V Rheoli Datblygiad, ac Adnoddau Dynol

35. Bydd yr ymgyrch i ailgyflunio yn gyfle i sefydliadau ganolbwyntio ar bob agwedd ar eu perfformiad, gan gynnwys materion o bwys o ran rheoli. Mae'n amlwg fod lle i wella arferion ac arbenigedd rheoli, gan roi iddynt yr un sylw ag a roddir i ragoriaeth academiaidd. Dymunwn weld sefydliadau yn gwella yn amlwg ac yn barhaus, gan ddefnyddio technegau megis y Sefydliad Ewropeaidd er Rheoli Ansawdd (EFQM) i'r diben hwnnw. Dyletswydd AU yw amlygu'r safonau uchaf o atebolrwydd a llywodraethu yn ei hymwneud â phob un o'i rhanddeiliaid. Os yw sefydliadau yn cael bod agweddau ar hyn yn feichus, dylent geisio cymorth trwy ailgyflunio a chydweithio.

36. Mae'r sector AU yn gyflogwr mawr yng Nghymru. Mae'n bwysig ei fod yn dangos parch at egwyddorion fel cyfle cyfartal, ei fod yn datblygu ei staff, a bod ganddo bolisi cyflogau cadarn ar gyfer staff o bob gradd. Er mwyn cefnogi'r agweddau hyn ar foderneiddio'r sector, byddwn yn barod i ystyried darparu cyllid ychwanegol ar gyfer:

- **sicrhau y rheolir yr SAU yn well**, eu bod yn buddsoddi er mwyn **diwallu anghenion pobl anabl a'r grwpiau a dangynrychiolir**, ac er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol;
- cynorthwyo'r SAU i gynnal adolygiad sylfaenol o'u **systemau busnes a rheoli**, a chefnogi arbrofion gyda chaffael ar y cyd a defnyddio ffynonellau newydd;
- hwyluso **rhaglenni cynhwysfawr ar gyfer datblygu staff, ailhyfforddi ac adleoli staff** - fesul clwstwr yn ogystal ag ar gyfer y sector cyfan;
- manteisio i'r eithaf ar arbenigedd mewnol i helpu i **yrru'r gwaith o fabwysiadu'r technegau rheoli diweddaraf**;
- **cynnal archwiliadau cyflogau cyfartal**, a helpu'r SAU i ymateb i'r casgliadau.

## VI Ymchwil

37. Rydym eisoes wedi darparu cyllid ychwanegol o £6 miliwn ar gyfer cymell a gwobrwyo i gydnabod y cynnydd a wnaed gan yr SAU yng Nghymru yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil diwethaf. Bydd hyn yn dirwyn ymlaen i'r gwariant yn ystod 2002-03. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau nad yw sefydliadau'n cael eu hannog i fabwysiadu cenadaethau sydd yr un fath â'i gilydd i raddau helaeth.

38. Nod y strategaeth hon yw canolbwyntio a chynyddu gwelliannau trwy weithredu ar y cyd. Ni ddylid cyfyngu ymchwil i glwstwr unigol sy'n rhoi blaenoriaeth i ymchwil. Nid oes gan unrhyw un sefydliad y capasiti i gwmpasu holl rychwant hyd yn oed un o'r technolegau mwyaf blaengar. Yn y rhan fwyaf o'r sefydliadau, mae Adrannau unigol sy'n meddu ar gryfder, rhagoriaeth ac uchelgais nodedig. Dyna pam yr ydym yn rhagweld cysylltiadau swyddogaethol rhwng clystyrau a rhwng sefydliadau unigol.

39. Rydym yn dymuno gweld clystyrau ymchwil yn datblygu mewn meysydd sy'n allweddol i dwf yr economi wybodaeth yng Nghymru ac yn adeiladu ar yr agweddau hynny ar y bywyd Cymreig sy'n arbennig i Gymru. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai'r cyfrifoldeb statudol unigryw sydd gan y Cynulliad dros ddatblygu cynaliadwy weithredu fel canolbwyt ar gyfer ymchwil a datblygu (yn enwedig mewn perthynas â rheoli gwastraff ac ynni adnewyddadwy). Yn amodol ar y cynnydd a wneir o ran ailgyflunio, ac yng nghyd-destun cylchoedd cynllunio cyllideb olynol, byddwn:

- **yn edrych eto ar y modd rydym yn dyrannu cyllid ar gyfer cyrhaeddiad ymchwil.** Rhan o gylch gwaith CCAUC fydd ystyried a yw'r fethodoleg gyllido gyfredol yn cynnig digon o gymhellion i ragori, ynteu a ddylid ei defnyddio'n fwy detholus. Mae angen gwobrwyo rhagoriaeth a chefnogi'r ymgais i ragori;
- **yn ystyried rhoi cyllid ar gael i hyrwyddo sylfaen ymchwil** sy'n ddigon hyblyg i ail-lunio portffolios ymchwil presennol; datblygu cyfleoedd ymchwil newydd mewn meysydd annatblygedig; a chaniatáu i grwpiau newydd o ymchwilwyr ymddangos;
- **yn annog ymdrechu cydweithiol a cheisiadau cydweithiol** ar gyfer cyllid Cyngorau Ymchwil a chyllid arall, gan adeiladu ar feysydd rhagoriaeth a rhoi ystyriaeth lawn i'r potensial ar gyfer datblygu ym mhob un o'r sefydliadau;
- **yn ystyried sut i gefnogi grwpiau ymchwil y mae eu gwaith yn cyrraedd safonau byd-eang,** gan roi ystyriaeth benodol i eneteg, a bio- a nano-dechnolegau yn y gwyddorau iechyd a bywyd;
- yn ei gwneud yn rhan o gylch gwaith CCAUC i roi **cymorth ariannol i'r SAU i baratoi ceisiadau ymchwil,** gan roi ystyriaeth lawn i bosibiliadau'r synergedd rhwng strategaethau'r Cyngorau Ymchwil a'r Cynulliad.

## VII Ymelwa ar Wybodaeth

- Rhwng 1990 a 1998, crëwyd 17 o fusnesau o ganlyniad i ddatblygiadau o fewn SAU. Rhwng sefydlu Rhaglen Ddeillio Cymru yn Ebrill 2000 ac Awst 2001, mae 19 o gwmnïau wedi eu creu.

40. Mae manteisio'n fasnachol ar wybodaeth trwy batentu, trosglwyddo gwybodaeth, deillio a thechnegau eraill yn fater o bwys critigol i "Y Wlad Sy'n Dysgu" ac i "Cymru'n Ennill". Mae ei arwyddocâd yn aruthrol i holl weithredoedd Llywodraeth y Cynulliad ac mae'n arbennig o bwysig i'r sector sy'n seiliedig ar weithgynhyrchu - yn enwedig i fentrau bach a chanolig. Pe baent yn llwyddo i gael gwell cyfatebiaeth rhwng eu harbenigedd a'u technolegau galluogi, byddai eu gallu i gystadlu yn gwell a'n drawiadol. Rhaid inni ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf blaengar er mwyn elwa'n economaidd ac yn fasnachol.

41. Disgwyliwn i'r clystyrau gydweithio'n agos â busnesau yng Nghymru er mwyn gwneud yn fawr o gyfleoedd ac ymateb i realiti economaidd. Disgwyliwn weld eu heffaith yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Ein gobaith yw y bydd y sector hwn yn peri newid dros nos yn y diwylliant o ymelwa ar wybodaeth. Hoffem i weithgareddau trydedd genhadaeth gael eu hystyried yn rhan naturiol o weithgarwch pob sefydliad ym mhob maes pwnc, gan gynnwys y dyniaethau, gyda'u potensial amlwg i groesgysylltu â'n diwydiannau creadigol a chyfryngol.

42. Ar yr un pryd, ni ddylem ddiystyru pwysigrwydd ymchwil i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall ymchwil, er enghraifft, fod o fudd i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, o ran gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Dyna sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn llunio'i pholisïau ym mhob maes - ac y mae'n gwerthfawrogi'n fawr y cysylltiadau sy'n datblygu rhyngddi â'r sector ac a fydd yn ehangu ei sail tystiolaeth.

43. Ar yr amod bod y sector yn chwarae'i ran er mwyn llwyddo trwy ailgyflunio a chydweithio, dylem fod yn barod i helpu trwy gynyddu'r llifau cyllid sy'n cefnogi ymelwa ar wybodaeth. Ar gyfer y tymor byr a chanolig, bydd y Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth, a fydd yn £34 miliwn am y cyfnod 2000-2004, ynghyd â chyllid Amcan 1, rhaglen "ddeillio" Awdurdod Datblygu Cymru, y Ganolfan Fasnacheiddio Technoleg arfaethedig, Wil i'w Wely, a chynllun TACS Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<sup>3</sup> rhyngddynt yn darparu sail ar gyfer hyn. Byddwn yn cadw'r posibilrwydd o ddefnyddio'r Gronfa Ymwelwa ar Wybodaeth dan arolwg, a byddwn yn barod i ystyried cynyddu'r buddsoddiad yn y Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth yn y tymor canolig.

- Erbyn dechrau blwyddyn academiaidd 2004, **disgwyliwn i'r clystyrau fod wedi penderfynu sut y byddant yn datblygu eu portffolios masnacheiddio** - gan nodi amcangyfrifon meintiol llawn o'u helw disgwyliedig. Byddem yn disgwyl i hyn fod yn rhan ganolog o gynllun strategol pob sefydliad. Bydd sicrhau y cyflwynir ef yn rhan o gylch gwaith CCAUC.
- Byddwn yn mynnu bod CCAUC yn asesu'r posibilrwydd o **gyflwyno un ffrwd o gyllid yn unig** ar gyfer cefnogi gweithgareddau sy'n ymelwa ar wybodaeth.
- **Disgwyliwn i bob clwstwr fynd i'r afael â'r sectorau twf allweddol** yng Nghymru, gan roi sylw priodol i ddata'r Cynghorau Sgiliau Sector a Sgiliau Dyfodol Cymru, yn ogystal â chynghor gan Awdurdod Datblygu Cymru ac egwyddorion Foresight. Mae hyn yr un mor berthnasol i'r agenda ar gyfer addysgu a dysgu, ag ydyw ar gyfer ymchwil, ac rydym yn disgwyl i'r clystyrau gymryd camau i helpu eu staff i gadw cysylltiad ag arferion blaengar mewn diwydiant, lle bynnag y bo hynny'n briodol.
- Byddwn yn ystyried darparu **cyllid ar gyfer bwrsariaethau ymchwil a datblygu** a gyllidir trwy'r SAU, ond yn unol â'r meini prawf a bennir gan

3 Mentrau eraill a gynlluniwyd ar gyfer hwyluso cysylltiadau rhwng diwydiant a'r byd academiaidd yw'r Cynlluniau Cwmniau Addysgu, Partneriaethau Coleg a Busnes, Help Wales, y Canolfannau Rhagoriaeth ar gyfer Technoleg a Chydweithredu Diwydiannol (CETICS), Dylunio Cymru, Cymru Prosper Wales, y Rhaglen Topspin, y rhaglen FUSE a Rhwydwaith Arloesi Prifysgol Caerdydd.

gwmniau unigol - er mwyn sicrhau bod yr agenda Y&D yng Nghymru yn cydgorïon well ag anghenion diwydiant ac yn hyrwyddo cysylltiad agos rhwng y sefydliadau a busnesau.

- Rhan o gylch gwaith CCAUC fydd **cynnal cyfres o gyfarfodydd 'bord gron' gyda rheolwyr ac academyddion o'r sector AU, ac arbenigwyr ar gyllid risg**, er mwyn cynyddu hyder ac arbenigedd y sector, wrth lunio dilyniant cyson o gytundebau cadarn; goresgyn unrhyw gamsyniad neu anhyblygrwydd yn y modd y bydd AU yn trin eiddo deallusol; darparu llwyfan i rannu profiad o'r hyn y gellir ei gyflawni'n llwyddiannus o ran ymelwa ar wybodaeth; a chynyddu gwybodaeth y gymuned cyllid risg am y potensial o fewn AU yng Nghymru.

## VIII Rhagoriaeth mewn Addysgu a Dysgu

44. Mae'r gobaith am dwf grymus yn economi Cymru yn dibynnu ar ddatblygu gweithlu galluog. Rhaid anelu at gyflenwi pobl fedrus ar gyfer y sectorau twf, lle mae galw am bobl o'r fath. Mae cyflenwi graddedigion gwybodus, hyblyg a medrus, a all gyfrannu at ddyfodol economaidd Cymru, yn dibynnu ar addysgu o'r radd flaenaf. Addysgu yw un o swyddogaethau allweddol pob un o'n SAU, ac mae cysylltiad pwysig rhyngddo ac ymchwil. Fodd bynnag, nid yw'r mecanwaith cyllido presennol yn gwobrwy addysgu rhagorol yn ddigonol, ar sail ei werth ei hunan, nac yn ei gefnogi'n effeithiol yn yr SAU hynny lle nad oes cenhadaeth ymchwil fawr.

45. Rydym yn dymuno i'r sefydliadau barhau i ganolbwyntio ar safonau addysgu uchel - mewn pynciau galwedigaethol yn ogystal â phynciau academiaidd. Credwn mai'r hyn a ddylai fod yn amcan pob cenhadaeth addysgu yw cynyddu profiad a chyrhaeddiad pob un o'r myfyrwyr i'r eithaf. Mae ymatebolrwydd i anghenion y myfyrwyr yn ystyriaeth gritigol i lwyddiant yr agenda mynediad. Rhaid goresgyn y gwahaniaethau yn y cyfraddau cadw myfyrwyr, pe bai ond er tegwch i'r myfyrwyr a recriwtir o gefndiroedd annhraddodiadol.

46. Disgwyliwn i'r sefydliadau adeiladu ar eu llwyddiant hyd yma, ac i ailasesu eu cenhadaethau addysgu, gan ymateb i'r modd y mae anghenion myfyrwyr yn newid. Disgwyliwn i'r sefydliadau ddatblygu dulliau addysgu arloesol, sy'n manteisio ar y datblygiadau technolegol diweddaraf pan fo hynny'n berthnasol, yn ychwanegol at dechnegau mwy traddodiadol a chyswllt personol rhwng y tiwtoriaid a'r myfyrwyr.

47. Ar yr amod y gwneir cynnydd arwyddocaol ar fater ailgyflunio a chydweithio, byddwn yn mynnu bod CCAUC yn ystyried sut y gellir cydnabod a gwobrwy addysgu effeithiol yn briodol, mewn modd cyffelyb i'r broses YAY ar gyfer ymchwil. Wedyn yn ystod cylchoedd olynol o gynllunio cyllideb, dylem fod yn barod i ystyried darparu cyllid ychwanegol i'r diben hwnnw, gan roi sylw priodol i berfformiad y sefydliadau ar ôl 1992. Byddwn yn parhau i gyllido addysgu trwy'r grant bloc. Disgwyliwn i CCAUC baratoi strategaeth ar gyfer datblygu'r genhadaeth addysgu, ac i ystyried y ffordd orau i fesur a gwobrwy llwyddiannau, o ran cadw myfyrwyr a chyrhaeddiad.

48. Mae yna ddatblygiadau arwyddocaol y dylid cymryd sylw ohonynt mewn meysydd arbenigol hefyd. Er enghraifft, er mai sefydliadau tra gwahanol, ar ganol cyfnodau gwahanol iawn yn eu datblygiad, yw Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru a Choleg Cerdd a Drama Cymru mae'r ddau fel ei gilydd yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni o ran ehangu'r ddarpariaeth.

49. Mae Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (CMPC) yn gwneud cyfraniad pwysig i iechyd ar gyfer Cymru gyfan. Rydym yn bendant na ddylai unrhyw ailgyflunio na chydweithio wanychu ei swyddogaeth a'i gyfrifoldeb i Gymru gyfan.

50. Mae gwaith eisoes ar droed i gynllunio gweithlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn fanwl. Mae'r gwaith o ehangu addysg feddygol yn mynd rhagddo dan arolwg Grŵp Ymgynghorol Arbenigol Gweithlu Iechyd Cymru Gyfan. Erbyn mis Medi y flwyddyn nesaf byddwn bron wedi dyblu nifer y myfyrwyr meddygol sy'n astudio yn CMPC, o 190 i 360 drwy Gymru.

51. Nid ydym o'r farn y byddai'n briodol creu sefydliad newydd i ddiwallu unrhyw anghenion gwahanol yn y maes hwn. Ein bwriad yn hytrach yw gweld ehangu mewn mannau eraill yng Nghymru, wedi ganoli ar y ddarpariaeth bresennol yn CMPC - yn benodol trwy gyfrwng y model 'both ac adain', ar sail cynlluniau a ddatblygir yng Ngogledd Cymru ac yn Ysbyty'r Royal Gwent. Bydd cynnal swyddogaeth Cymru gyfan CMPC yn faen prawf yn y dyfodol. Rydym yn awyddus i weld estyn y swyddogaeth yn strategol, gan adeiladu ar y rhagoriaeth a'r profiad presennol. Cyhoeddassom yn ddiweddar y byddwn yn darparu cyllid i gefnogi'r cynllun mynediad i raddedigion yn Ysgol Glinigol Abertawe – bydd y Grŵp Ymgynghorol yn ystyried manylion y cynllun hwn hefyd. Byddwn yn parhau i archwilio anghenion y GIG yng Nghymru, wrth iddynt esblygu, ac i ddatblygu atebion strategol cyfatebol i'w diwallu.

52. Mae CCAUC eisoes yn cefnogi'r Coleg Cerdd a Drama yn ei raglen uchelgeisiol i ennill statws conservatoire. Rydym yn croesawu'r cynlluniau hyn ac yn disgwyl i'r coleg ddatblygu ei bresenoldeb drwy Gymru gyfan.

53. Yn fyr, byddwn:

- yn gwneud yr angen i ddyfeisio ffyrdd o **ddatblygu a gwobrwyo rhagoriaeth yn y cenadaethau addysgu** yn rhan o swyddogaeth CCAUC;
- yn disgwyl i Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru mewn partneriaeth â CCAUC a sefydliadau addysg uwch Cymreig eraill, **estyn y ddarpariaeth o hyfforddiant meddygol trwy Gymru gyfan**, yn unol â'r agenda ar gyfer ehangu mynediad, a blaenoriaethau eraill Llywodraeth y Cynulliad;
- **yn disgwyl i Goleg Cerdd a Drama Cymru ddatblygu ei rôl a'i bresenoldeb drwy Gymru gyfan**, gan gydweithio i hyrwyddo safonau uchel.

## IX Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

54. Ym 1999/2000, 3% yn unig o'r myfyrwyr yn sefydliadau addysg uwch Cymru oedd yn cael eu haddysgu ryw gymaint trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i weithio er mwyn gwneud dwyieithrwydd yn ffaith yng Nghymru. Yn yr adroddiad diweddar gan Estyn<sup>4</sup> cyfeiriwyd at y prinder darpariaeth Gymraeg o fewn AU ac AB. Dymunwn weld sector AU sy'n ymatebol i unigolion, gan gynnwys rhai sy'n dymuno astudio rhannau o'u cyrsiau gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros amser, dylid ystyried hyn yn rhan o'r ddarpariaeth brif-ffrwd sy'n cwmpasu detholiad o gyrsiau a modiwlau.

55. Fodd bynnag, ni chredwn fod yna un ffordd syml o estyn y cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae ar CCAUC angen gwell data ar gyfer cynllunio, cyn y gellir buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu'r galluoedd cyfrwng Cymraeg. Rhaid i'r Cyngor fod yn eglur ynghylch lefel bresennol y galw a'r lefelau a ragwelir, ym mhob rhan o'r system addysg, a chael gwell dealltwriaeth o'r gydberthynas rhwng y cyflenwad a'r galw. Ni allwn gadarnhau pa fuddsoddiad y byddwn yn barod i'w gwneud yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg hyd nes bydd y rhagdybiaethau cynllunio hyn yn eglur inni. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y dylid symud ymlaen â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mewn ffyrdd a oleuir gan y cynigion a roddwyd gerbron gan y Bwrdd Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg, ac rydym yn cydnabod y gwaith gwerthfawr a wneir gan y Bwrdd.

56. Rydym yn dymuno i'r sefydliadau gydweithio yn hyblyg er mwyn gweld sut y gellir bodloni'r galw cyfrwng Cymraeg, a manteisio ar dechnoleg newydd i estyn y cyfleoedd. Credwn hefyd y dylai'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysgu Cyfrwng Cymraeg fod yn rhith-ganolfan yn hytrach nag yn endid daearyddol, ac y dylid ystyried y cyllid yng ngoleuni canlyniadau'r astudiaeth sy'n ofynnol o'r galw a'r cyflenwad. Dylem gydnabod bod angen i'r ddarpariaeth yn y dyfodol roi sylw i'r prinder cyfredol o ddefnyddiau addysgu cyfrwng Cymraeg, a chydabod bod y gyfran o siaradwyr Cymraeg naturiol ar hyn o bryd yn debygol o fod yn rhy fach i fodloni'r holl alwadau sy'n ymhlyg mewn datblygu dwyieithrwydd. Mae'n debygol y bydd angen ystyried, fel blaenoriaeth, roi cynlluniau ar waith i dreialu a gwerthuso cyfnodau sabothol i athrawon ar gyfer dysgu iaith - athrawon mewn ysgolion ac mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch - a bydd angen asesu'r goblygiadau o ran adnoddau drwyddi draw.

- Byddwn yn gwahodd CCAUC i gomisiynu **adroddiad ar lefelau presennol y galw a'r cyflenwad am addysg uwch cyfrwng Cymraeg**, y tueddiadau a ragamcener o ran galw, a'r camau y dylid eu cymryd i gynyddu'r galw.
- Byddwn yn sicrhau bod **CCAUC yn cynnal trafodaethau â'r Bwrdd Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg** i ganfod y ffordd orau o fodloni'r galw.
- Byddwn yn ystyried darparu cyllid - gan gynnwys cyllid i **dreialu cyfnodau sabothol dysgu iaith** ar gyfer ymarferwyr - yng nghyd-destun cylchoedd cynllunio cyllideb olynol.

<sup>4</sup> Adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2000 - 2001 (Chwefror 2002)



## X Datblygu Gweithlu Medrus

### Cyrchfan gyntaf myfyrwyr y mae eu cartrefi yng Nghymru

- Ym 1999/2000 fe wnaeth 61% o'r israddedigion o gartrefi yng Nghymru, a 56% o'r ôl-raddedigion, ymgymryd â'u gweithgarwch cyntaf yng Nghymru.
- Cafodd 55% o'r israddedigion o gartrefi Cymreig swydd gyflogedig yn y DU, a pharhaodd 26% arall i astudio neu dderbyn hyfforddiant pellach. Y ffigurau ar gyfer ôl-raddedigion yw 83% a 6% yn eu trefn.

### Cyrchfan gyntaf myfyrwyr o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru

- Fe wnaeth 55% o'r israddedigion a 52% o'r ôl-raddedigion o'r SAU yng Nghymru aros yng Nghymru i ymgymryd â'u gweithgarwch cyntaf.
- Cafodd 55% o'r holl fyfyrwyr o sefydliadau Cymru swydd gyflogedig yn y DU, a pharhaodd 25% arall i astudio neu dderbyn hyfforddiant pellach. Mae hyn yn cymharu â 62% ac 20% yn Lloegr.

57. Mae'r cyfraniad parhaus AU i'r economi yn gyffredinol yn cynnwys creu swyddi cyflogedig o ansawdd uchel yma yng Nghymru, ar gyfer graddedigion sefydliadau addysg uwch Cymru. Rydym yn benderfynol o gynyddu nifer y graddedigion oherwydd y cyfleoedd bywyd a'r boddhad personol a geir yn sgîl addysg uwch, a hefyd oherwydd y buddion a ddaw i economi Cymru o gael gweithlu medrus a galluog. Nid yw'r byd academiaidd bellach yn bodoli ar wahân i fyd busnes, diwydiant a'r gwasanaethau cyhoeddus; ac mae ganddo gyfrifoldeb i wella cyflogadwyedd graddedigion. Dylai myfyrwyr gael astudio lle bynnag y mynnont, ond mae o fudd mawr i Gymru pan fo graddedigion medrus yn dewis aros ac ymgartrefu yng Nghymru.

58. Dylai gwasanaethau gyrfaedd fod yn darparu cyngor cadarn i fyfyrwyr sy'n dynesu at raddio, yn ogystal â phrofiad gwaith o ansawdd uchel a chynlluniau ymgyfarwyddo yn ystod y cyfnod israddedig. Disgwyliwn i wasanaethau gyrfaedd y sefydliadau eu hunain gydweithio'n agos â Gyrfa Cymru i fanteisio i'r eithaf ar lif gwybodaeth ac i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth holistig. Credwn y gallai cydweithio a defnyddio TGCh wella'r ddarpariaeth cyfarwyddyd gyrfaedd yn sylweddol, trwy rannu systemau, arferion gorau a datblygiadau, tra'n hybu presenoldeb egniol ar y campws. Byddwn:

- yn ystyried darparu cyllid i sefydliadau er mwyn datblygu **cysylltiadau â chyn-fyfyrwyr**, gyda'r nod o adeiladu rhwydweithiau gyda graddedigion o'r gorffennol, er mwyn cadw cyfleoedd hirdymor yn agored iddynt ddychwelyd i Gymru;
- yn ystyried a oes cyfle i gyflwyno ysgoloriaethau newydd neu gyfleoedd datblygu gyrfa, a chyllid cyfatebol a ddenir gan yr SAU eu hunain, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr o grwpiau difreintiedig;



- yn comisiynu adroddiad gan CCAUC ar **ddarparu cymorth personol** i fyfyrwyr yn SAU Cymru;
- yn ymateb i **argymhellion y gweithgor cyfredol ar wasanaethau gyrfaol** o fewn AU, a darparu cyllid i'w cynorthwyo i gymharu eu perfformiad â'r goreuon rhyngwladol ac i gyrraedd safonau byd-eang. Rydym yn dymuno gweld darpariaeth ddi-dor o gymorth gyrfaol trwy gydol gyrfa addysg y myfyrwyr, ac ymlaen i'w bywyd gwaith;
- **yn annog y sector AU i gydweithio'n agos â busnesau lleol** ac ymateb i'w hanghenion – gan annog mwy o gyfraniad gan bobl sydd eisoes yn gweithio, i gefnogi addysg gydol oes ac uwchsgilio, a chan geisio sicrhau gwasanaeth blaengar a hyblyg.

## XI Marchnadoedd a Chymaryddion Rhyngwladol

- Roedd 12% o'r myfyrwyr blwyddyn gyntaf yng Nghymru yn dod o wledydd tramor, o gymharu â 15% trwy'r DU gyfan (1999/2000)

59. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cyfrannu'n sylweddol at gynnal proffil byd-eang Cymru, ac yn caniatáu i SAU Cymru feincnodi yn erbyn y goreuon a pharhau'n gynhyrchiol yn genedlaethol. Mae achos cryf o blaid cynnal cysylltiadau er mwyn hyrwyddo arferion gorau, ar gyfer pob cenhadaeth AU - ac annog y goreuon o'r cyfranogwyr byd-eang i ymweld, yn y cnawd neu fel rhith-ymwelwyr.

60. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn cynnig ffrwd bwysig arall o gyllid i'r sefydliadau. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliadau AU yng Nghymru'n perfformio'n gymharol dda o ran denu myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd i astudio yng Nghymru; ond mae lle i wella o ran denu myfyrwyr o'r tu allan i'r UE. Byddwn yn ystyried darparu cyllid ar gyfer cynlluniau sy'n amcanu i adeiladu cysylltiadau a chynghreiriau strategol â sefydliadau yn y gwledydd allweddol a dargedir. Rhagwelwn y byddai'r cynlluniau hyn yn cynnwys:

- **bwrsariaethau** i helpu sefydliadau i ffurfio cysylltiadau â chydweithwyr mewn gwledydd eraill;
- cyllid i ddenu **academyddion o fri rhyngwladol** i swyddi Athrawon arweiniol a chadeiriau ymwelwyr;
- **cynlluniau cyfnewid myfyrwyr**, yn enwedig ar y lefelau ôl-raddedig.

61. Mae Cymdeithas Cysylltu Rhyngwladol Addysg Uwch Cymru (WHEILA) wedi gwneud gwaith defnyddiol ym maes marchnata a chysylltiadau rhyngwladol. Credwn ei bod yn bwysig i Gymru ddangos wyneb unedig yn rhyngwladol, a bod y sector cyfan yn mabwysiadu agwedd strategol at gydweithio rhyngwladol. Rydym yn ddiweddar wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Cuba, sy'n canolbwyntio ar symudedd cyfalaf deallusol ac yn amcanu i rannu arferion da. Credwn mai'r Memorandwm hwn fydd y cyntaf o lawer, ac rydym yn croesawu'n arbennig y gwaith y mae WHEILA'n ei wneud mewn gwledydd targed allweddol.

Rydym hefyd yn dymuno cynyddu'r enillion o'r gwaith a wneir ar lefel y DU. Mae angen i'n perfformiad wella'n gyflym ac yn sylweddol yn y dyfodol ac, o ganlyniad, byddwn yn mynnu bod CCAUC yn cyllido datblygiadau yn ganolog yn y dyfodol.

## XII Arloesi, Cyfleoedd a Chyllido yn y Dyfodol

62. Yn amodol ar benderfyniadau yn ystod cylchoedd cynllunio cyllideb olynol, rhagwelwn yr ychwanegir ffrydiau o gyllid neilltuedig at y cymorth grant presennol, yn y tymor canol a'r tymor hwy. Bydd yr alwad gyntaf ar yr ychwanegiadau i'r waelodlin bresennol ar gyfer AU yng Nghymru yn ymwneud â chyflawni'r blaenoriaethau o ran mynediad, gwaith trydedd genhadaeth, addysgu, rheoli a chymorth i ddysgwyr, a nodir yn y strategaeth hon. Ni fyddem yn disgwyl i bob clwstwr gael cyllid o dan bob un o'r penawdau hyn. Rydym yn dymuno adeiladu ar gryfderau presennol, gan osgoi unrhyw ystumio cenhadaeth. Wrth i'r sector ailgyflunio'n llwyddiannus, a dechrau cael budd gwirioneddol o gydweithio, bydd y cyllid cysylltiedig yn trosglwyddo i'r elfennau eraill hyn yn y strategaeth..

63. Yn yr hirdymor, wedi i'r sector ailddiffinio'i ffurf a'i genhadaeth, disodlir y rhaglenni cyllid neilltuedig gan grantiau bloc, y bwriedir iddynt gynnal gwelliant parhaus. Byddai'r grantiau'n dibynnu ar amodau cyffredinol mewn perthynas â'r gofynion strategol, a chanlyniadau o ansawdd uchel gan y sector yn gyffredinol. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r cynigion cyllido a ystyrir ar hyn o bryd yn yr Alban.

64. Daeth yn fwyfwy amlwg fod y fethodoleg gyllido bresennol yn atal CCAUC rhag canolbwyntio adnoddau ar gefnogi datblygiadau newydd, pan fo sefydliadau unigol naill ai'n analluog neu'n amharod i'w cyllido eu hunain. Mae cyllido trwy fformiwlâ'n cyfyngu ar y gallu i wneud y math o fuddsoddi mawr a fydd yn arwain at ddiwygio a chryfhau'r sector i'w alluogi'r i fanteisio ar gyfleoedd mawr newydd, er budd y dysgwyr a Chymru gyfan.

65. Ar gyfer prosiectau mawr ac arloesol, creir cronfa newydd, a fydd y deillion rhannol - ond nid yn gyfangwbl - o ailgylchu'r elw cynyddol a fydd yn codi o'r strategaeth hon ar gyfer addysg uwch. Wrth i'r sector ailgyflunio'n llwyddiannus, a dechrau cael budd gwirioneddol o gydweithio, bydd y cyllid cysylltiedig yn trosglwyddo i'r elfennau eraill yn y strategaeth ei hunan - ac yn benodol i gefnogi'r arloesi mawr na ellir ei fforddio ar hyn o bryd.

66. Bydd y gronfa arloesi newydd yn ceisio cynorthwyo'r sector i elwa ar gyfleoedd mawr newydd gydag effeithiau lluosydd cryf - llawer ohonynt, oherwydd eu natur, yn anodd i'w rhagweld. Er enghraifft, byddai'r gronfa'n canolbwyntio ar ymdrechion cydweithiol i:

- **datblygu dulliau trwy Gymru gyfan** ar gyfer gwella mynediad ymhlith pobl ifanc ac oedolion;
- **hyrwyddo cyfle ymchwil** mewn adrannau nad ydynt yn cyrraedd y categori 5/5\*, ond sydd â photensial i ddatblygu rhagoriaeth o'r fath;

- **buddsoddi cyfalaf ychwanegol yn y technolegau mwyaf blaengar** a chefnogi ymchwil, trosglwyddo technoleg ac uwchsgilio mewn meysydd sy'n allweddol i siawns Cymru yn yr economi wybodaeth;
- **hybu cysylltiadau rhyngwladol** ag adrannau a sefydliadau o fri byd-eang - yn arbennig er mwyn cefnogi sectorau busnes a chyflogaeth allweddol yng Nghymru;
- **datblygu e-ddysgu a dysgu o bell**, yn arbennig trwy feddwl o'r newydd am sut i ddatblygu sianelau band-llydan a chynyddu'r lled band yn anferthol ar gyfer y cysylltiadau AU presennol;
- **cefnogi blaenoriaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad**, megis hyfforddiant rhyng-broffesiynol o fewn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a hyrwyddo diwydiant creadigol.
- **cefnogi darpariaeth newydd** ar sail cydweithio o fewn neu rhwng clystyrau – er enghraifft ym maes mentrau gwledig;
- **datblygu themâu neu gymwyseddau pynciol newydd** megis y rhai sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd, a chynhyrchion a gwasanaethau amgylcheddol.

### XIII Swyddogaeth a Chylch Gwaith y Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC)

67. Bydd CCAUC yn parhau i chwarae rhan ganolog o ran cyrraedd ein nod ar gyfer addysg uwch. Cynnwys y strategaeth hon a fydd yn pennu ffurf y llythyrau cylch gwaith olynol at y Cyngor, a fydd yn cyflwyno canllawiau ac yn nodi'r hyn a fyddir ganddo, ac erbyn pa bryd. Byddwn yn monitro perfformiad y Cyngor yn erbyn y gofynion hyn. Byddwn yn parhau hefyd i ddibynnu'n drwm ar arbenigedd y Cyngor wrth fwrw ymlaen â'r strategaeth hon, ac ar ei enw da fel corff sy'n gweithio mewn partneriaeth glôs â'r sector. Rydym yn derbyn y bydd angen atgyfnerthu strwythur staffio'r Cyngor, er mwyn iddo chwarae'i ran yn yr agenda uchelgeisiol hon.

68. Disgwyliwn i CCAUC sicrhau bod ei gynlluniau strategol a gweithredol yn cydgordio â chynlluniau'r Cyngor Cenedlaethol yn ELWa, ac y bydd yn parhau i gydweithio'n glôs â phartneriaid eraill, megis Awdurdod Datblygu Cymru.

69. Rydym yn ategu'r farn y dylai CCAUC fabwysiadu swyddogaeth gynllunio strategol sy'n fwy rhagweithiol. Mae'r sector yn wynebu pwysau sylweddol oherwydd cystadleuaeth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ni ellir eu hwynebu'n llwyddiannus heb welliant parhaus a dramatig yng nghyflyndiaeth a chynhyrchiant cyffredinol y system addysg uwch yng Nghymru.

70. Disgwyliwn i'r sector ddangos cynnydd sylweddol o ran ailgyflunio a chydweithio, sef y rhagamodau allweddol ar gyfer cyflwyno'r strategaeth hon. Gan roi sylw priodol i'r profiad a enillir wrth gyflawni'r cam cyntaf yn y strategaeth, byddwn yn edrych am gyfleoedd deddfwriaethol i sicrhau y bydd gan

CCAUC yr holl bwerau angenrheidiol ar gyfer cynllunio'n sensitif ac yn effeithiol, er mwyn gwarantu cyflwyno llwyddiannus.

## XIV Canlyniadau

71. Mae'r Strategaeth hon yn rhwymo Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r sector AU mewn ffyrdd newydd a chreadigol dros dymor hir. Mae'n cydnabod pwysigrwydd y sector ynddo'i hunan, yn ogystal â'i gyfraniad i ddatblygiad di-dor dysgu gydol oes trwy Gymru gyfan. Bydd ystod manwl o ganlyniadau targed yn cael eu datblygu bob blwyddyn, ar ôl ymgynghori â'r sector. Gwneir hyn gan gymryd i ystyriaeth y gyfres bresennol o fesurau perfformiad meintiol ac ansoddol sy'n briodol i addysg uwch yn ei chyfanrwydd. Bydd hefyd yn adlewyrchu maint cynnydd gwirioneddol y sector, o ran ailgyflunio a chydweithio, mewn modd a all effeithio'n gadarnhaol ar gylchoedd cynllunio cyllideb olynol, ac yn unol â dymuniad Llywodraeth y Cynulliad.

72. Fan lleiaf, ac yn amodol ar drafod ymhellach gyda'r sector ac eraill, rydym yn dymuno gweld y canlyniadau canlynol yn cael eu gwireddu o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru. Bydd y cyllid yn dibynnu ar y canlyniadau hyn:

- **Ailgyflunio** er mwyn cyrraedd y màs critigol sy'n ddigonol i leihau'r costau gorbenion ar gyfer y cyfan o'r sector AU, o leiaf i lefel is na chyfartaledd Cymru a Lloegr, erbyn 2005, ac i'r chwarter isaf erbyn 2010.
- **Yr incwm y mae'r sector yn ei hepgor** yn flynyddol, ac a nodir yn y ddogfen hon, i'w gywain yn raddol fesul blwyddyn rhwng 2007 a 2010, ac yn benodol:
  - cau'r bwlch yn y cyllid a ddenir i Gymru o'r Cyngorau Ymchwil erbyn 2010;
  - yr incwm o gontractau ymchwil, elusennau, diwydiant, gwaddolion ac ymelwa ar wybodaeth i gynyddu 60% erbyn 2007, a 100% erbyn 2010;
- Cyfran y **bohl ifanc sy'n cael mynediad i AU o gymdogaethau isel eu cyfranogiad** i gynyddu o tua 25-30% i 40-50% erbyn 2010.
- **AU a darparwyr eraill i ymgysylltu** mewn ffyrdd arloesol, er mwyn sicrhau bod llwybrau dilyniant di-dor tuag at ddysgu parhaus ar gael i bawb yng Nghymru erbyn 2010.
- **Cyfran y bohl ifanc ag anabledd** sy'n cael addysg uwch i gyfateb i'r gyfran yng Nghymru sydd ag anabledd, erbyn 2010.
- Cyfran y myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru **sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg** i gynyddu i 7% erbyn 2010.
- AU yng Nghymru i'w hystyried yn **gyrchfan dewis cyntaf** gan fwyafrif o'r dysgwyr yng Nghymru erbyn 2010.

- **Y graddiadau ymchwil lefel uchaf** a enillir gan SAU yng Nghymru i gynyddu draean o leiaf erbyn 2007.
- Ar ôl trafodaethau priodol, ELWa ac Awdurdod Datblygu Cymru i **gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer datblygiadau mewn ymchwil, trosglwyddo technoleg ac uwchsgilio** gan dargedu'r buddsoddi er mwyn helpu i hyrwyddo'r economi wybodaeth yng Nghymru erbyn gwanwyn 2003;
- Nifer y cwmnïau **proffidiol sy'n deillio o'r sefydliadau addysg uwch** bob blwyddyn i ddyblu erbyn 2010.
- Dim un o'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i'w asesu fel un sydd mewn **sefyllfa ariannol** ymylol neu anfoddhaol, a phob un i gyrraedd safonau llywodraethu uchel erbyn 2007.
- Nifer y **myfyrwyr tramor** sy'n dilyn cyrsiau AU yng Nghymru i gynyddu yn ôl yr un ganran â'r rhai sy'n dilyn cyrsiau AU yn y DU gyfan erbyn 2010.

## XV Casgliad

73. Ein nod yw cefnogi addysg uwch fel y gall Cymru fod yn wirioneddol yn wlad sy'n dysg. Rydym yn cydnabod arwyddocâd strategol canolog addysg uwch o ran galluogi Cymru i ennill bri rhyngwladol am ei nodweddion creadigol; ei doniau entrepreneuriaidd; ei hymrwymiad cymdeithasol diffuant a blaengar, sy'n rhoi'r sylw teg i brinder cyfleoedd ac i ddatblygu cynaliadwy. Rydym yn hyderus y gall addysg uwch yng Nghymru fanteisio ar y cyfleoedd ac ateb yr her sydd ymhlyg yn y Strategaeth hon. Rydym yn barod i fuddsoddi rhagor na'r ddarpariaeth gyfredol er mwyn helpu addysg uwch i fwrw ymlaen â'r agenda hon. Yn awr disgwyliwn weld y sector yn rhoi croeso cynnes iddi.